

# Amlhau – ynddo ef

*“Oherwydd os yw’r rhain gennyh yn helaeth, byddant yn peri nad diog a diffwrwyth fyddwch.” (adn. 8)*

## Beth am ddarlenn 2 Pedr 1:1–8 ac yna myfyrio

Yn y rhifyn hwn, byddwn yn canolbwyntio ar dair adnod fendigedig sydd yn ail lythyr Pedr (1:5–7) lle mae’r apostol yn ein hannog i arfogi ein hunain gyda saith rhinwedd arbennig. Mae’r bennod agoriadol yma yn ail lythyr Pedr yn rhoi’r argraff fod Pedr â diddordeb mawr mewn mathemateg oherwydd mae’n cynnwys dwy sŷm ysbrydol. Yn yr ail adnod, mae’n sôn am y modd y mae Pedr am i ras a heddwch gael eu lluosogi tuag at y gwrandawyr, ac yna yn adnod 5, mae’n annog y saint i ychwanegu neu adio at eu ffydd, daioni, gwybodaeth ac yn y blaen. Mae un yn sŷm luosi, a’r ail yn sŷm adio. Mae Duw yn llusoi, rydan ni’n ychwanegu. Ond mae’n rhaid nodi na allwn ond ychwanegu i’r graddau yr ydym yn meddiannu y gras y mae Duw yn ei lluosogi atom.

Yn adnodau 3 a 4, mae Pedr yn rhoi darlun hyfryd i ni o ogoniant person Iesu. Ynddo ef, mae yna rym di-ball, mae yna ddaioni di-ball, mae yna addewidion mawr a gwerthfawr. Ymhellach, ar sail ein perthynas ag ef, gallwn feddiannu y natur ddwyfol. Ond mae Pedr am bwysleisio ei bod yn bosibl i fod yn gyfranogion o natur ddwyfol a hefyd i fod yn bobl sydd yn ddiog ac yn ddiffwrwyth yn ein perthynas a’n hadnabyddiaeth o Iesu Grist. Mewn geiriau eraill, mae’n bosibl i wreiddio ein bywyd yng Nghrist ond i beidio ag adeiladu ein bywyd ar Grist. Mae’r cyfeiriad at wreiddio yn sôn am ein perthynas bersonol ni â’r adnoddau sydd yn Iesu Grist ar ein cyfer ni. Mae’r ymadrodd “adeiladu” yn ein gorfodi i ymdrech bersonol. Gwaith Crist yw ein gwneud yn gyfranogion o’r natur ddwyfol. Ein gwaith ni yw sianelu ein holl ymdrech er mwyn arfogi ein hunain gyda’r saith rhinwedd mae Pedr yn eu nodi. Mae angen i’r saith rhinwedd yma nid yn unig i fod ynom ni ond i fod ynom ni mewn mesur helaethach. Mewn geiriau eraill, mae angen iddyn nhw orlifo.

Nid yn unig mae bywyd yng Nghrist, ond bywyd cyflawn. Nid yn unig mae galw arnom ni i fod yng Nghrist ond i amlhau yn ein perthynas ag ef.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ioan 15:1–16; Col.2:1–7

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae amlhau yng Nghrist?
2. Sut mae aros yng Nghrist?

## Gweddi

O Dduw, maddau i mi os rwyf yn wag ynghanol digon, yn anwybodus ynghanol gwybodaeth, yn ddifywyd ynghanol bywyd. Rwy’n rhoi fy nghwpan wag o dan ffynnon dy ddaioni di-ball di. Llanw fi fel y byddaf yn orlawn o’th ddaioni. Yn enw Iesu. Amen.